# RHYBUDD o Benderfyniadau y cyfarfod arbennig o Gyngor Sir Ynys Môn a gynhaliwyd ddydd Mercher, 6 Tachwedd 2024

**YN BRESENNOL:** Cynghorydd Glyn Haynes (Cadeirydd)
Cynghorydd Non Dafydd (Is-gadeirydd)

Cynghorwyr Geraint Bebb, Paul Ellis, Jeff M Evans, Neville Evans, Douglas Massie Fowlie, Kenneth P Hughes, T Ll Hughes MBE, Carwyn Jones, John Ifan Jones, R Ll Jones, A M Jones, G O Jones, Dyfed Wyn Jones, Euryn Morris, Pip O'Neill, Llio Angharad Owen, Gary Pritchard, Dylan Rees, Alun Roberts, Dafydd Roberts, Keith Roberts, Margaret Murley Roberts, Nicola Roberts, Dafydd Rhys Thomas, Alwen Pennant Watkin, Ieuan Williams, Robin Williams, Sonia Williams ac Arfon Wyn

**YMDDIHEURIADAU** : Cynghorwyr Jackie Lewis, Derek Owen, Ken Taylor a Liz Wood

(10.00 o'r gloch yb - 10.50 o'r gloch yb)

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **1. Datganiad o Ddiddordeb** |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | Bu'r Cynghorydd Alwen P Watkin ddatgan diddordeb personol yn eitem 4 – Awdurdodi ac ariannu'r gwaith trwsio annisgwyl ac yn dilyn derbyn cyngor cyfreithiol roedd modd iddi gymryd rhan yn y drafodaeth a'r bleidlais. |

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **3. Cau Allan y Wasg a'r Cyhoedd** |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | **PENDERFYNWYD mabwysiadu'r canlynol:-**<br><br>**"O dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn oherwydd y tebygolrwydd y caiff gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwneir eithriad ohoni yn Atodlen 12A y Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm."** |

## EITEM GYFRINACHOL

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **4. Awdurdodi ac Ariannu Gwaith Trwsio Annisgwyl** |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | **PENDERFYNWYD:-**<br><br>• **Nodi cyflwr peryglus yr adeilad a'r risg uniongyrchol i ddiogelwch y cyhoedd,** |

| | |
|---|---|
| | **gan olygu bod angen gweithredu ar frys.**<br>• **Awdurdodi rhyddhau uchafswm o £500,000 o falansau cyffredinol y Cyngor er mwyn caniatáu i waith strwythurol brys gael ei wneud i sicrhau diogelwch y cyhoedd.**<br>• **Awdurdodi swyddogion i ddwyn unrhyw achosion cyfreithiol y maent yn ystyried yn rhesymol er mwyn adennill y costau a gafwyd gan y Cyngor wrth gyflawni'r gwaith unioni ar yr adeilad/adeiladau ac ariannu unrhyw gostau cyfreithiol nad ydynt yn cael eu hadennill.**<br>• **Caniatáu eithriad ar gyfer "contractau lle mae cymaint o frys nad yw'n bosibl cydymffurfio â'r Rheolau hyn" a bydd angen eithriad ar gyfer y gwaith hwn oherwydd y brys.** |